Cymhorthydd Dysgu Lefel 2

Cyfeirnod y Swydd: YYGC00339W1RDE
Lleoliad: Ysgol Glan Clwyd
Cyflog: Graddfa 3 - £17,834 - £18,132
Oriau: 32.5 awr yr wythnos, Tymor Ysgol + 5 HMS
Math o gytundeb: Swydd Tymor Penodol 01/09/2024 – 31/08/2025
Swydd allanol

Beth am ymuno â'r Tim o Gymhorthyddion yma yn Ysgol Glan Clwyd?

Rydym yn awyddus i gynnig cyfle i unigolyn sy'n ystyried gyrfa yn y maes addysg Gymraeg i ymuno gyda ni am gyfnod o 12 mis trwy'r *cynllun "Datblygu Capasiti'r gweithlu cyfrwng Cymraeg"*.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y swydd, mae angen i chi fod yn fyfyriwr blwyddyn gap sy'n ystyried symud ymlaen i'r brifysgol i hyfforddi i fod yn athro. Bydd yr ysgol yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth.

Rydym yn chwilio am Gymhorthydd Dysgu brwdfrydig sydd â sgiliau trefnu ardderchog. Bydd deilydd y swydd yn gweithio o dan gyfarwyddyd uniongyrchol staff dysgu yn y dosbarth, gydag athro fel arfer, i helpu disgyblion i ddysgu a rhoi cymorth yn gyffredinol i athrawon gyda rheoli
disgyblion a'r dosbarth.

Mae'n hanfodol fod gennych sgiliau Llythrennedd a Rhifedd ardderchog a gwybodaeth sylfaenol am ddefnyddio systemau cyfrifiadurol.
Bydd y penodiad yn amodol ar Wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Os hoffech fwy o fanylion am y swydd uchod, gellir cysylltu â'r ysgol ar 01745 582611.
Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein drwy wefan www.sirddinbych.gov.uk; **mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais i gael eu hystyried.**

Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn pythefnos o'r dyddiad cau, fe ddylech gymryd yn ganiataol nad ydych ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad.

Dyddiad Cau: **Dydd Mercher 15/08/24**

This Advert is for Teaching Assistants at Ysgol Glan Clwyd for which the ability to speak Welsh is an essential requirement.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.

CYNGOR SIR DDINBYCH

MANYLEB PERSON

Mae'r Fanyleb yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweld am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meiniprawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n bertnnasol).

Teitl y Swydd: Cymhorthydd Dysgu Cyffredinol Lefel 2
Gwasanaeth: Ysgolion
Graddfa: 3

MEINI PRAWF	**HANFODOL**	**DYMUNOL**	**DULL ASESU** Ffurflen Gais / Cyfweliad / Cyflwyniad / Geirda ac ati
i. ADDYSG A CHYMWYSTERAU	Sgiliau rhifedd / llythrennedd da	NVQ 2 ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu neu gymhwyster neu brofiad perthnasol Hyfforddwyd yn y strategaethau dysgu perthnasol e.e. llythrennedd Hyfforddiant cyntaf/ hyfforddiant fel y bo'n briodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad
ii. PROFIAD PERTHNASOL	Gweithio gyda neu ofalu am blant o'r oedran perthnasol	Gweithio yn y sector Gofal/Addysg Gwybodaeth am strategaethau targedu anghenion unigol disgyblion	Ffurflen Gais / Cyfweliad

iii. **GWYBODAETH A SGILIAU CYSYLLTIEDIG Â'R SWYDD**	Dealltwriaeth o anghenion addysgiadol, cymdeithasol ac emosiynol y plant. Defnyddio TGCh yn effeithiol i gefnogi dysgu Medru defnyddio offer a thechnoleg arall – fidio, llungopïwr	Dealltwriaeth o'r polisïau/codau ymarfer a bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth berthnasol Dealltwriaeth gyffredinol o'r cwricwlwm cenedlaethol/cyfnod sylfaen a rhaglenni / strategaethau dysgu syflaenol eraill	Ffurflen Gais / Cyfweliad
iv. **NODWEDDION PERSONOL**	Medru hunanarfarnu anghenion dysgu a chwilio am gyfleoedd dysgu newydd Medru ymwneud yn dda â phlant ac oedolion Gallu sefydlu perthynas positifi gyda disgyblion a dangos empathi a'I anghenion. Gweithio'n adeiladol fel aelod o dîm, deall rôl a chyfrifoldebau yn y dosbarth a'ch sefyllfa chi mewn perthynas â'r rhain. Proffesiynoldeb Dibynnol Hyblygrwydd		Ffurflen Gais / Cyfweliad
v. **GOFYNION ERAILL**	Medru siarad Cymraeg Empathi gydag iaith a diwylliant Cymru		Ffurflen Gais / Cyfweliad